Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd A'r Fro
Llunio Ein Gwasanaethau Clinigol I'r Dyfodol

Llunio ein
Llesiant
i'r Dyfodol

# EIN CYNLLLUN BABANOD, PLANT A PHOBL IFANC HYD AT 2035

*Meithrin dechreuadau llachar,*
*Sicrhau bywydau iach*



# Rhagair

Yn dilyn y broses o adnewyddu Strategaeth ein Bwrdd Iechyd, **Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol**, rydym yn falch o gyhoeddi ein cynllun ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc 2025 -2035. Dyma un o'r cyntaf o'n cynlluniau hirdymor sy'n helpu i ddisgrifio sut y byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth.

*Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn helpu i wella bywydau, felly erbyn 2035 bydd pobl yn iachach a bydd gwahaniaethau annheg o ran canlyniadau iechyd yn cael eu lleihau. Bydd y gofal rydym yn ei ddarparu i bobl sydd angen ein gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau yn rhagorol, gyda chanlyniadau a phrofiadau i bawb sy'n cymharu'n dda â'r sefydliadau tebyg sy'n perfformio orau.*

Wedi'i greu gan ein timau, a chyda chefnogaeth ein Bwrdd Ieuenctid, mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu'r hyn yr ydym wedi'i glywed gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â chydweithwyr a phartneriaid, a'r newid yn y dirwedd gofal iechyd. Mae'r cynllun hwn yn atgyfnerthu ein rôl fel darparwr gofal lleol rhagorol yn ogystal â gwasanaethau arbenigol ar gyfer Cymru gyfan ac mae'n adlewyrchu sut y byddwn yn cyflawni ein pedwar amcan strategol ar gyfer ein cenhedlaeth yn y dyfodol:

1. Rhoi pobl yn gyntaf
2. Darparu ansawdd rhagorol
3. Cyflawni yn y mannau cywir
4. Gweithredu ar gyfer y dyfodol

## *Byw'n Dda, Gofalu'n Dda, Gweithio Gyda'n*

Rydym yn rhagweld y bydd y cynllun hwn yn datblygu dros amser wrth i ni ymateb i anghenion ein poblogaeth a'r datblygiadau sy'n esblygu'n barhaus mewn technoleg a'r broses o ddarparu gofal. Bydd ein camau nesaf i gyflawni'r cynllun hwn yn cynnwys gweithio gyda thimau ar draws ein sefydliad a phartneriaid i sefydlu cynllun cyflawni manwl ar draws ein llwybrau gofal.

Hoffem ddiolch i bawb, ein cydweithwyr, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ein Bwrdd Ieuenctid a'n partneriaid niferus sydd wedi helpu i ddatblygu'r cynllun hwn.  Rydym wedi gwrando ar yr hyn yr ydych wedi'i ddweud wrthym sy'n bwysig i chi ac yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein cynllun.



**Charles Janczewski, Cadeirydd**



**Suzanne Rankin, Prif Weithredwr**

# Neges gan Gomisiynydd Plant Cymru


O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC), mae gan bob plentyn yr hawl i'r safon gofal iechyd gorau posibl (erthygl 24), a'r hawl i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnynt (erthygl 12), gan gynnwys eu gofal iechyd. Fel Comisiynydd Plant, fy ngwaith i yw sicrhau bod plant yn gallu cael mynediad at eu hawliau, a hyrwyddo hawliau plant o dan yr UNCRC.

Rwy'n croesawu'r cynllun strategol 10 mlynedd hwn, sy'n dangos ymrwymiad Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i fabanod, plant a phobl ifanc. Mae Bwrdd Ieuenctid Iechyd Caerdydd a'r Fro yn enghraifft wych o gyfranogiad gweithredol plant a phobl ifanc yng ngwaith corff cyhoeddus. Trwy'r bwrdd ieuenctid, mae plant a phobl ifanc wedi bod yn rhan o gydgynhyrchu'r cynllun hwn drwy gydol ei ddatblygiad, ac mae gan y Cynllun ei hun aliniad clir i egwyddorion yr UNCRC, gan gynnwys grymuso, mynediad at wybodaeth, cydraddoldeb a hygyrchedd.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn weithgar wrth weithio tuag at ddull Y Ffordd Iawn o ymgorffori hawliau plant i wasanaethau cyhoeddus ers sawl blwyddyn bellach. Mae'r cynllun strategol hwn yn gam allweddol i'w groesawu ar daith y Bwrdd i fod yn sefydliad blaenllaw sy'n hyrwyddo a pharchu hawliau plant. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd Iechyd drwy gydol gweddill fy nhymor fel Comisiynydd i sicrhau bod plant yng Nghaerdydd a'r Fro yn gallu cael mynediad at eu hawliau i'r gofal iechyd gorau posibl, a lleisio eu barn ar faterion sy'n effeithio arnynt.



**Rocio Cifuentes,**
**Comisiynydd Plant Cymru**



# Cyflwyno ein Cynllun

***Mae ein Cynllun Babanod, Plant a Phobl Ifanc*** yn disgrifio sut y byddwn yn gweithio i sicrhau, erbyn 2035, bod pob plentyn yn derbyn gofal teg, o ansawdd uchel, sy'n caniatáu iddynt ffynnu. Mae'r cynllun hwn yn ceisio lleihau anghydraddoldebau iechyd a gwella iechyd a lles sy'n canolbwyntio ar y plentyn, yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) ac ethos Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) "Mae iechyd yn gyflwr o les corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyflawn ac nid absenoldeb afiechyd neu salwch yn unig".

Mae ein cynllun wedi cael ei arwain yn glinigol gan ein cydweithwyr ymroddedig sy'n gweithio'n agos ochr yn ochr â'n Bwrdd Ieuenctid. Mae hyn wedi rhoi amrywiaeth broffesiynol gyfoethog sy'n dod ag arfer gorau a thystiolaeth i'r amlwg ac wedi dod ag arweinwyr sefydledig a darpar arweinwyr ynghyd ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a sefydliadau rydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw.

Rydym wedi gweithio gydag arbenigwyr yn GIG Cymru i ragweld sut y gallai fod angen i'n gwasanaethau addasu a newid i gwrdd â heriau'r dyfodol a manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni.

Rydym wedi ymrwymo i wrando, dysgu ac arwain mewn partneriaeth â phlant, pobl ifanc, teuluoedd, cydweithwyr a phartneriaid. Er mwyn sicrhau ein bod yn cofnodi'r lleisiau hynny, gofynnon ni gwestiwn syml: "Beth sydd bwysicaf?" drwy arolwg a digwyddiadau gyda'n staff a'n partneriaid, y cyhoedd a thrafodaethau yn ein hysgolion dros gyfnod o 20 wythnos. Mae cyfanswm o 1602 o leisiau wedi llywio ein cynllun.

Isod mae'r 5 prif beth yr oedd pobl yn teimlo a fyddai'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ofal iechyd:

1. Y canlyniad gorau i'r claf
2. Cael fy ngweld yn gyflym
3. Gweld yr arbenigwr iawn
4. Teimlo fy mod yn cael fy nghefnogi
5. Deall beth sy'n digwydd

Daeth sawl thema i'r amlwg a oedd yn bwysig i bobl yn ein trafodaethau.

- Amseroedd aros hir
- Angen gwell mynediad at ofal arbenigol
- Amgylcheddau gofal annigonol a'r angen am fannau sy'n ystyriol o blant a phobl ifanc
- Angen gwell cyfathrebu gyda theuluoedd ac ar draws darparwyr gofal iechyd a sefydliadau eraill
- Pontio gwell i wasanaethau oedolion
- Mwy o ofal rhithwir ac yn y cartref
- Gwell staffio a hyfforddiant, yn enwedig ar gyfer trin anghenion gofal cymhleth
- Gwell cymorth iechyd meddwl ac emosiynol

Rydym yn falch ein bod wedi cydweithio i ddatblygu'r cynllun hwn sydd ond yn ddechrau taith i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer y boblogaeth yr ydym yn gofalu amdani.



**Andy Jones, Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Clinigol Plant a Menywod ac Athika Ahmed ac Ellis Peres ar ran aelodau Bwrdd Ieuenctid Caerdydd a'r Fro**

# Gofal Iechyd Plant yng Nghymru

***Mae cynllun Cymru Iachach*** (2018) yn fframwaith polisi sylfaenol ar gyfer GIG Cymru, sy'n arwain gwasanaethau gofal iechyd ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Mae'n rhoi pwyslais ar ddarparu gofal o ansawdd uchel, diogel ac amserol sydd wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion penodol plant. Mae'r cynllun hwn yn cael ei lunio gan bolisïau cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a Deddf Plant (2004), ymhlith eraill, ac yn cyd-fynd â chanllawiau rhyngwladol fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

## Amcanion polisi allweddol:

1. **Ymyrraeth Gynnar ac Atal**
   Mae GIG Cymru yn rhoi blaenoriaeth i atal salwch a hybu iechyd trwy raglenni brechu, addysg iechyd, a phrofion sgrinio datblygiadol.
2. **Gofal Integredig a Chydweithredol:**
   Mae dull holistaidd, cydgysylltiedig sy'n cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol a sefydliadau'r trydydd sector yn sicrhau bod anghenion meddygol a chymdeithasol plant yn cael sylw.
3. **Mynediad Teg:** Gwneir ymdrechion i ddileu gwahaniaethau gofal iechyd a sicrhau bod gan bob plentyn, waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol, ethnigrwydd, dinasyddiaeth, nodweddion gwarchodedig, statws teulu (Plant sy'n Derbyn Gofal/CLA) fynediad at ofal o ansawdd.

## Meysydd Gwasanaeth Allweddol:

- **Gwasanaethau Mamolaeth a Blynyddoedd Cynnar:** Mae gofal mamolaeth cynhwysfawr yn cefnogi menywod o feichiogrwydd drwy'r cyfnod ôl-enedigol. Mae gan deuluoedd fynediad at gyngor, cefnogaeth ac addysg gan wasanaethau yn y gymuned i helpu babanod a phlant i gael dechrau da mewn bywyd.
- **Gwasanaethau Sylafenol ac Arbenigol:** Mae GIG Cymru yn darparu ystod eang o ofal sylfaenol ac arbenigol, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl trwy Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a gwasanaethau i blant sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau hirdymor gan gynnwys anhwylderau niwroddatblygiadol ac anableddau dysgu hyd at wasanaethau gofal lliniarol.
- **Iechyd Meddwl a Lles:** Nod y rhaglen Gyda'n Gilydd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (2015) yw mynd i'r afael â materion iechyd meddwl cynyddol ymhlith plant drwy ddarparu gofal iechyd meddwl amserol o ansawdd uchel a hyrwyddo ymyrraeth gynnar.
- **Amddiffyn a Diogelu Plant:** Mae GIG Cymru yn gorchymyn bod pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol wedi'i hyfforddi i nodi ac ymateb i achosion o gam-drin ac esgeuluso plant, gan weithio ar draws yr holl wasanaethau a chysylltu'n agos â gwasanaethau cymdeithasol a gorfodi'r gyfraith i sicrhau amddiffyniad plant.



# Amdanom

Rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd cynhwysfawr ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae dros 3000 o gydweithwyr yn gyfrifol am ddarparu gofal i'n cenhedlaeth nesaf mewn ysbytai, cymunedau a chartrefi. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig ein meddygon, nyrsys, therapyddion a gweithwyr cymorth ond hefyd ystod eang o bobl sy'n mynd yr ail filltir i sicrhau'r gofal gorau, gan gynnwys ein timau arlwyo, ein porthorion a'n glanhawyr. Mae ein gwasanaethau'n amrywio o ofal iechyd arferol i ofal arbenigol i'r rhai ag anghenion cymhleth, anawsterau datblygiadol ac ymddygiadol, a phryderon iechyd meddwl.

Mae ein gwasanaethau cymunedol yn cynnig ystod eang o gefnogaeth, gan gynnwys gofal yn y cartref ac yn yr ysgol, gan hyrwyddo lles corfforol ac emosiynol i helpu plant i gyrraedd eu potensial llawn. Mae timau amlddisgyblaethol yn integreiddio gofal ysbyty gyda gwasanaethau cymunedol, gan weithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i ddarparu cefnogaeth holistaidd i gleifion a'u teuluoedd.

Ein Huned Achosion Brys Pediatrig yw'r prysuraf yng Nghymru sy'n trin dros 35,000 o gleifion yn flynyddol. Mae Ysbyty Plant Cymru (CHfW), sydd wedi'i leoli yn Ysbyty Athrofaol Cymru, yn ganolfan gofal trydyddol o bwys sy'n cynnig gofal arbenigol fel cardioleg, niwroleg, oncoleg a neonatoleg. Mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, mae hefyd yn ganolfan ar gyfer ymchwil ac arloesi. Trwy bartneriaethau gyda'n comisiynwyr arbenigol, Prifysgol Caerdydd a byrddau iechyd eraill yng Nghymru a Lloegr, rydym yn sicrhau'r gofal gorau i blant sydd â'r anghenion iechyd mwyaf cymhleth.



# Beth sy'n ein gwneud ni'n arbennig?

Rydym yn unigryw o ran ehangder y gwasanaethau a ddarparwn, a'r arbenigwyr sy'n gweithio i ni sy'n golygu ein bod yn cefnogi babanod, plant a phobl ifanc a'u teuluoedd o bob rhan o Gymru mewn sawl ffordd:

- Mae gennym ni'r uned achosion brys pediatrig fwyaf yng Nghymru, gan drin y cleifion mwyaf sâl a'r rhai sydd wedi'u hanafu'n ddifrifol. Rydym wedi gweithio'n galed i wella gwasanaethau, lleihau amseroedd aros a gwneud gwelliannau i'r amgylchedd sy'n cael ei adlewyrchu mewn adborth gan gleifion a theuluoedd.
- Rydym yn darparu gofal arbenigol iawn gan yr unig Ysbyty Plant yng Nghymru, gan ddarparu gofal i blant ledled y wlad. Rydym yn meincnodi'n dda yn erbyn ein cymheiriaid mewn canlyniadau ac yn cynnig y gofod ymchwil gwarchodedig cyntaf i bobl ifanc dan 18 oed yng Nghymru, Yr Uned Ymchwil Plant ac Oedolion Ifanc mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd.
- Mae gennym Fwrdd Iechyd Plant a Phobl Ifanc sefydledig sy'n cefnogi ymgynghori a chyfranogi ar draws pob maes, gyda'r nod o wella ein gwasanaethau i blant a phobl ifanc.
- Rydym yn gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd yn y gymuned i'w grymuso i fyw bywydau iach trwy fentrau fel Teuluoedd Egnïol, Bywydau Egnïol (AFAL).
- Rydym yn rhoi blaenoriaeth i weithio mewn partneriaeth i gyrraedd a chefnogi ein poblogaethau mwyaf agored i niwed trwy dimau sydd wedi'u llywio gan seicoleg sy'n gweithio gyda Plant sy'n Derbyn Gofal (Enfys), Plant ar Ffiniau Gofal (Goleudy), plant sydd ag Anghenion Dysgu cymhleth (Cyfuno) neu o fewn Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid.
- Rydym yn gweithio'n unol â fframwaith NYTH Llywodraeth Cymru, a dull system gyfan o ymdrin â lles emosiynol ac iechyd meddwl i fabanod, plant a phobl ifanc ar draws awdurdodau lleol, y sector iechyd a'r sector gwirfoddol.

## Ein gwasanaethau gofal iechyd

Mae ein gwasanaethau'n wynebu galw digynsail, yn ogystal â heriau o ran denu a chadw ein gweithlu a chynnydd mewn triniaethau a therapïau newydd cymeradwy wrth weithredu mewn amgylchedd o ansefydlogrwydd ariannol. Mae hyn yn golygu bod ein cleifion yn gorfod aros yn hir am rai triniaethau, gan effeithio ar iechyd corfforol a meddyliol, twf, datblygiad ac addysg. Rydym hefyd wedi clywed am effaith arosiadau hir ar fywyd teuluol gan gynnwys y straen ar gleifion a rhoddwyr gofal a tharfu ar fywyd teuluol.

Mae ein tîm yn gweithio'n galed iawn i ddarparu'r gofal gorau. Fodd bynnag, mae'r galw ar wasanaethau hefyd yn effeithio ar ein cydweithwyr sy'n effeithio ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, morâl a boddhad swydd. Mae hyn yn aml yn arwain at drosiant uwch, anawsterau recriwtio, a llai o ansawdd gofal cleifion. Mae perygl y gallai rhai gwasanaethau fynd yn anghynaliadwy os byddwn yn parhau i weithredu fel yr ydym ar hyn o bryd.

# Beth sydd ar y gorwel

Mae yna nifer o dueddiadau a heriau gofal iechyd yn y dyfodol dros y degawd nesaf.

## Mae'r prif themâu yn cynnwys:

**Tegwch a Hygyrchedd:** Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd cynyddol a ysgogir gan ffactorau economaidd-gymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae gwella mynediad at ofal iechyd, yn enwedig ar gyfer poblogaethau sy'n agored i niwed, a sicrhau defnydd teg o dechnolegau sy'n dod i'r amlwg fel AI (Deallusrwydd Artiffisial) a meddygaeth genomig yn hanfodol.

**Iechyd meddwl:** Bydd cynnydd parhaus mewn problemau iechyd meddwl ymhlith plant a phobl ifanc, gyda mwy o alw am wasanaethau. Bydd gofal yn y dyfodol yn pwysleisio ymyrraeth gynnar, integreiddio gwasanaethau i ofal sylfaenol, a'r defnydd o offer digidol ar gyfer ymgynghoriadau o bell.

**Gordewdra yn ystod plentyndod:** Bydd gordewdra yn parhau i fod yn bryder iechyd cyhoeddus mawr, gan arwain at gyfraddau uwch o ddiabetes a chlefydau cardiofasgwlaidd. Bydd mentrau iechyd cyhoeddus fel 'Bwyd Da' a 'Teuluoedd Egnïol Bywydau Egnïol (AFAL)' yn chwarae rhan sylweddol wrth fynd i'r afael â'r duedd hon.

**Ysmygu a Defnyddio Sylweddau:** Er bod cyfraddau ysmygu yn gostwng, mae risgiau newydd o fepio a chamddefnyddio sylweddau yn dod i'r amlwg, gan olygu bod angen ymdrechion iechyd cyhoeddus parhaus.

**Iechyd Deintyddol:** Mae iechyd deintyddol gwael, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd, yn parhau i fod yn her. Bydd rhaglenni fel "Cynllun Gwên" yn parhau i fynd i'r afael â hyn drwy ofal ataliol.

**Brechu a Chlefydau y gellir eu hatal:** Nid yw cyfraddau brechu plant wedi cyrraedd y targedau, gan achosi risg o glefydau y gellir eu hatal. Bydd ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd yn parhau i fod yn ffocws i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar frechlynnau.

**Cyflyrau Cronig ac Anableddau:** Mae'r cynnydd yn nifer y cyflyrau cronig yn arwain at gynnydd mewn anableddau hirdymor a'r angen am ofal arbenigol a gwasanaethau gofal integredig i oedolion a phlant.

**Iechyd yr Amgylchedd a Newid yn yr Hinsawdd:** Bydd llygredd cynyddol a newid yn yr hinsawdd yn gwaethygu problemau anadlol fel asthma, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, gan fynnu polisïau amgylcheddol cryfach a seilweithiau gofal iechyd gwydn.

**Iechyd Digidol a Thechnoleg:** Bydd offer digidol fel telefeddygaeth ac AI yn gwella mynediad gofal iechyd, yn enwedig mewn ardaloedd anghysbell. Bydd AI hefyd yn gwella diagnosteg a chynlluniau triniaeth wedi'u personoli, gan sicrhau system gofal iechyd fwy effeithlon.

**Triniaethau Newydd:** Mae meddygaeth genomig yn datblygu, gan gynnig therapïau wedi'u personoli a chanfod clefydau yn gynnar trwy broffilio genetig. Bydd hyn yn trawsnewid gofal iechyd trwy ddarparu triniaethau wedi'u teilwra.

**Heriau a Gwydnwch y Gweithlu:** Bydd heneiddio a disgwyliadau newidiol ein gweithlu aml-genhedlaeth, ynghyd â thueddiadau a heriau gofal iechyd, yn golygu bod angen gwneud pethau'n wahanol. Bydd hyn yn cynnwys uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu er mwyn bodloni gofynion y dyfodol a byd gwaith a thechnoleg sy'n esblygu. Bydd hefyd angen ail-lunio'r gweithlu gyda modelau gweithio newydd sy'n canolbwyntio ar gyfraniad y tîm amlddisgyblaethol a datblygu rolau newydd ac uwch. Bydd modelau gweithio hyblyg, rheoli ein talent a gwell ymgysylltiad â'r gweithlu a'n partneriaid allanol yn sicrhau ein bod yn gallu cadw ein staff presennol, denu gweithlu'r dyfodol ac yn ei dro ddarparu gofal diogel o ansawdd.

# Ein hegwyddorion

## Mae'r egwyddorion canlynol yn llywio'r cynllun:

- **Dull sy'n Canolbwyntio ar y Plentyn:** Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyd-fynd â gofyniad UNCRC i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau gan ddilyn yr egwyddor bod **'dim cynllun amdana i, hebdda i'**. Yr Awdurdod Lleol fydd â chyfrifoldeb rhianta corfforaethol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA).
- **Arweiniad clinigol a data gwybodus ar gyfer canlyniadau eithriadol:** Byddwn yn sicrhau bod ein timau clinigol yn arwain wrth ddatblygu ein gwasanaethau gan ddefnyddio data a gwybodaeth dda i sicrhau canlyniadau o ansawdd rhagorol yn unol â'n cymheiriaid.
- **Gofal Integredig:** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod ein cynlluniau'n gydgysylltiedig a'u bod yn cael eu datblygu ar draws llwybrau gofal cyfan i fynd i'r afael ag anghenion holistaidd plant.
- **Ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol:** Byddwn yn ymgorffori cynaliadwyedd amgylcheddol ac economaidd yn ein cynlluniau. Gan weithio fel rhan o'n partneriaeth gwyddorau iechyd academaidd ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n optimeiddio ymchwil ac arloesi. Byddwn yn datblygu gwasanaethau gan roi ystyriaeth i'n gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.
- **Ymyrraeth Gynnar ac Atal:** Byddwn yn datblygu mentrau gofal iechyd rhagweithiol i atal salwch, a chyflyrau sy'n gwaethygu neu'n dirywio.
- **Mynediad Teg:** Sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at gynnig amserol o ofal o ansawdd uchel, ni waeth pwy ydynt neu ble maent yn byw, a bod rhieni a rhoddwyr gofal yn cael cymorth seicolegol yn ogystal â darparu bwyd a llety tra eu bod yn ymdopi â'r straen o gael plentyn sy'n cael triniaeth drwy ein helusen (**Arch Noa**) a mentrau fel **Sophie's Legacy**.

## Ein Huchelgais

Yn unol â gweledigaeth ein bwrdd iechyd, ein huchelgais yw darparu gofal rhagorol i fabanod, plant a phobl ifanc; sicrhau canlyniadau a phrofiad i bawb sy'n cymharu â'r sefydliadau cyfatebol sy'n perfformio orau. Byddwn yn darparu gofal di-dor, amserol ac arbenigol i bob babi, plentyn a pherson ifanc, gan sicrhau nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl.

Trwy fuddsoddi yn ein timau, gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, gwella ein cyfleusterau a chroesawu dulliau arloesol, rydym yn ymroddedig i drawsnewid profiadau gofal iechyd, meithrin gwytnwch, a gwella canlyniadau a phrofiad i bawb: o enedigaeth, pontio i fyd oedolion ac ar ddiwedd oes.



# Ein Hamcanion a'n Blaenoriaethau

## 1. Gwella Iechyd y Boblogaeth, Atal ac Ymyrraeth Gynnar

Yn unol â'n hamcan strategol o Rhoi Pobl yn Gyntaf, byddwn yn gweithio i ddatblygu gwasanaethau sydd; yn lleihau gwahaniaethau iechyd, gwella mynediad, ac yn canolbwyntio ar addysg, atal, a chydlynu gwell gyda phartneriaid gyda'r nod o wella canlyniadau iechyd yn gynnar a darparu gwasanaethau yn y gymuned yn agosach at gartref.

Byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth drwy leoliadau acíwt a chymunedol, gan gynnwys gwasanaethau mamolaeth, ymweliadau iechyd, a rhaglenni iechyd yn yr ysgol. Gan gydnabod bod yr iechyd gorau posibl yn dechrau cyn geni, byddwn yn hyrwyddo dull ataliol a nodi'n gynnar er mwyn cefnogi plant sydd mewn perygl o ganlyniadau gwael. Drwy weithio ochr yn ochr â rhieni a phlant, a chydweithio â phartneriaid, ein nod yw sicrhau y gall pob plentyn gyflawni ei botensial corfforol ac emosiynol llawn.

### Ein Blaenoriaethau:

- **Gofal mamolaeth** – Drwy'r Strategaeth Gwasanaethau Mamolaeth Genedlaethol, bydd menywod beichiog yn derbyn gofal parhaus o gyn-enedigaeth hyd at ddechrau'r cyfnod ôl-enedigol.
- **Cymorth Blynyddoedd Cynnar:** Gan weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygiad plentyndod cynnar, gan gynnwys y 1,000 diwrnod cyntaf hanfodol, Rhaglen Plant Iach Cymru a'r prosiect Dechrau'n Dda gyda'n partneriaid rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad plentyndod cynnar a darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer teuluoedd bregus, plant ag anableddau, a'r rhai sydd mewn perygl o niwed.
- **Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl:** Byddwn yn gwella gwasanaethau iechyd meddwl mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ac yn integreiddio iechyd emosiynol â gofal corfforol drwy'r fframweithiau NYTH/NEST, gan sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch.
- **Ffordd o Fyw Iach a Gordewdra:** Hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy fentrau iechyd yn yr ysgol sy'n targedu ysmygu, camddefnyddio sylweddau, lles emosiynol, iechyd y geg, gordewdra, a mwy ochr yn ochr â ffocws parhaus ar ein menter Symud Mwy, Bwyta'n Iach a'r rhaglen Cynllun Gwên ar gyfer addysg iechyd y geg gynnar a gofal ataliol mewn ysgolion.
- **Brechu:** Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo brechu ymhlith plant i'w hamddiffyn rhag clefydau difrifol ac atal brigiad o achosion.
- **Mynediad at Ofal Arbenigol:** Byddwn yn sicrhau bod gan fabanod, plant a phobl ifanc fynediad teg at arbenigwyr a gwasanaethau diagnostig.
- **Gwasanaethau yn y Gymuned:** Gwasanaethau yn y Gymuned: Byddwn yn cynyddu gofal yn nes at y cartref drwy bartneriaethau gydag awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Byddwn yn canolbwyntio ar gynyddu ymwelwyr iechyd, gwasanaeth nyrsio ysgol sy'n chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo datblygiad iach, mynd i'r afael â phroblemau posibl yn ystod plentyndod cynnar gan gadw at Raglen Plant Iach Cymru (HCWP2). Yn yr un modd, bydd gwasanaethau therapi pediatrig yn grymuso teuluoedd a phlant ifanc i gael dechrau da trwy addysg, cyngor ac ymyriadau clinigol pan fo angen.

## 2. Iechyd Meddwl

Mae lles emosiynol a gwytnwch yn ganolog i'r holl ofal a ddarperir gan BIP Caerdydd a'r Fro, gyda chred graidd nad oes "iechyd heb iechyd meddwl." Rydym yn parhau i integreiddio cymorth iechyd meddwl a lles ar draws yr holl wasanaethau, gan weithio'n aml mewn partneriaeth â gwasanaethau cymunedol. Ein nod yw meithrin lles a gwytnwch mewn babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd trwy bob cyswllt.

### Ein Blaenoriaethau:

- **Dod yn ganolfan hyfforddi flaenllaw** yng Nghymru ar gyfer ymarferwyr iechyd meddwl Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd (CYPF).
- **Sicrhau bod yr holl staff yn ystyriol o drawma** ac yn meithrin gwytnwch ym mhob rhyngweithiad.
- **Darparu gofal rhagorol, integredig** drwy gydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn hygyrch, wedi'i arwain gan anghenion, ac yn canolbwyntio ar y teulu.
- **Darparu gwasanaethau yn ddigidol ac mewn lleoliadau cymunedol** sy'n hyrwyddo mynediad teg ac yn defnyddio amgylcheddau therapiwtig.
- **Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Woolfson Centre for Young People's Mental Health** ac arwain mewn atebion iechyd meddwl digidol a threialon clinigol.



## 3. Gofal wedi'i Gynllunio

Ein nod yw sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal amserol, o ansawdd uchel gyda mynediad at yr arbenigwyr iawn. Bydd ffocws ar well cydweithredu ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid i wella llwybrau gofal wedi'u cynllunio a datblygu gwasanaethau penodol i ateb y galw cynyddol a mynd i'r afael ag annhegwch.

### Ein Blaenoriaethau:

- **Gwella llwybr cyfan:** Gan gynnwys cydweithio rhwng y timau gofal sylfaenol a gofal eilaidd i gyflwyno gwelliannau ymhellach ar draws ein llwybrau gofal megis Clinigau Pediatrig integredig o fewn Clystyrau Meddygon Teulu.
- **Ffocws ar sicrhau mynediad teg i wasanaethau gofal wedi'u cynllunio:** Lleihau gwahaniaethau mewn triniaeth ar draws gwasanaethau drwy weithio gyda phartneriaid yng Nghaerdydd a'r Fro ac yn ehangach ledled Cymru i ddatblygu llwybrau gofal wedi'u cynllunio ar gyfer cleifion, gan ganolbwyntio ar well data ac adolygiad rheolaidd i olrhain gwelliannau.
- **Ehangu gwasanaethau llawfeddygol a gofal dydd yn CHfW** Ehangu cyfleusterau fel uned gofal Dydd Bumblebee i leihau amseroedd aros a gwella ffocws ar ddatblygiadau mewn technegau llawdriniaeth i wella canlyniadau. Byddwn yn datblygu Dragonfly ymhellach, ardal adfer ar ôl llawdriniaeth i leihau'r ddibyniaeth ar ofal yr Uned Dibyniaeth Uchel (HDU), gan ryddhau capasiti brys yn yr Uned Gofal Dwys (ICU) a lleihau achosion o ganslo llawdriniaethau.

# 4. Gofal mewn Argyfwng a Gofal Brys

Ein nod yw datblygu system gofal brys ac argyfwng 7 diwrnod yr wythnos o safon aur sy'n sicrhau mynediad amserol a theg i bob claf ar draws y rhanbarth, gan gynnig y gwasanaeth gorau i blant sy'n ddifrifol wael a'u teuluoedd mewn lleoliad priodol a phenodedig. Bydd yr un lefel o Ofal mewn Argyfwng a Gofal Brys 7 diwrnod yr wythnos, gan ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i rai o'n cleifion mwyaf sâl a'u teuluoedd.

## Ein Blaenoriaethau:

- **Cymorth Gartref a Rhithwir:** Ehangu cymorth gofal rhithwir a gofal yn y cartref lle bo hynny'n bosibl i leihau'r angen am ymweliadau brys, gan fanteisio ar apwyntiadau rhithwir i leihau amser yn yr ysbyty i gleifion a'u teuluoedd
- **Ffocws ar Hyfforddiant a Datblygu:** Cynyddu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer timau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i feysydd fel gofal i gleifion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), neu'r rhai y mae digwyddiadau trawmatig wedi effeithio arnynt gan sicrhau gofal personol ac arbenigol i bob plentyn.
- **Ffocws ar adnoddau yn y lle iawn:** Sicrhau bod gan ein gwasanaethau adnoddau digonol i ddarparu gofal yn y lle iawn i ddiwallu anghenion cleifion ar draws y llwybr gofal cyfan gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar werth o ddefnyddio data i lywio penderfyniadau.
- **Gofal 7 diwrnod:** Parhau i weithredu trefniadau gweithio 7 diwrnod ar draws pob maes, megis gweithredu rhestrau CAT 7 diwrnod sy'n sicrhau gofal cyson a theg, o ansawdd uchel.
- **Systemau Digidol Gwell:** Gwella seilwaith digidol i gefnogi gofal argyfwng a brys, gan sicrhau y darperir gofal mewn ffordd effeithlon a chydlynol.
- **Mynediad at ofal arbenigol a sicrhau'r amgylchedd iawn:** Sicrhau mynediad teg at ofal arbenigol trwy gynllunio tryloyw ac integreiddio adnoddau. Parhau i wella amgylcheddau i fabanod, plant a phobl ifanc pan fydd angen iddynt ddod i'n hysbytai.

# 5. Gofal Arbenigol

Mae plant sydd angen gofal arbenigol yng Nghymru yn derbyn gofal yn y CHfW yn ogystal ag ysbytai yn Lloegr; Ysbyty Brenhinol Plant Bryste, Ysbyty Plant Alder Hay ac Ysbyty Plant Birmingham. Mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu comisiynu drwy Gyd-bwyllgor Comisiynu Cymru (JCC) a arweiniodd waith ar strategaeth 5 mlynedd yn 2022 i wella gwasanaethau arbenigol ledled Cymru. Mae'r amcanion hyn yn cynnwys:

1. **Meini prawf mynediad clir:** Sefydlu llwybrau tryloyw i mewn ac allan o wasanaethau trydyddol gyda gwell dull o rannu gwybodaeth ymhlith darparwyr a theuluoedd.
2. **Gofal teg, o ansawdd uchel:** Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion yn y lleoliadau mwyaf priodol (mewngymorth neu allgymorth), gan fanteisio ar dechnolegau digidol uwch.
3. **Comisiynu sy'n canolbwyntio ar y claf:** Cryfhau'r llwybr gofal cyfan gan ddefnyddio dull amlddisgyblaethol sy'n ychwanegu gwerth ar draws is-arbenigeddau.
4. **Pontio Di-dor:** Sicrhau pontio llyfn rhwng gofal a gwasanaethau wrth i blant dyfu'n oedolion.
5. **Cyllid darbodus:** Blaenoriaethu cyllid ar gyfer y meysydd risg mwyaf, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gyfyngiadau capasiti, gan sicrhau mynediad amserol i wasanaethau arbenigol.

6. **Llywodraethu a Goruchwylio:** Sicrhau bod strwythurau priodol ar waith i oruchwylio'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau arbenigol.

## Yn unol â hyn, ein blaenoriaethau yw gweithio gyda'n partneriaid i wneud y canlynol:

- Darparu gofal arbenigol o ansawdd uchel yn yr amgylchedd lleiaf cyfyngol a mwyaf priodol.
- Sefydlu llwybrau clinigol di-dor ar gyfer cleifion sydd angen gwasanaethau arbenigol a gwella'r trawsnewidiadau ar draws lefelau gofal.
- Gweithio'n agos gyda chomisiynwyr i sicrhau dull gwell o ddarparu gwasanaethau a blaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer y meysydd hynny sydd â galw mawr ac amseroedd aros hir.

# 6.Gofal Pontio

Ein nod yw creu proses bontio ddi-dor, rymusol sy'n caniatáu i bobl ifanc symud yn hyderus i ofal oedolion. Byddwn yn anelu at sicrhau bod bob person ifanc sydd angen pontio i wasanaethau oedolion yn derbyn cymorth wedi'i deilwra gan weithwyr proffesiynol medrus. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol datblygu safonau clir i sicrhau prosesau tryloyw a theg ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys gofal brys a dewisol. Rhaid i'r person ifanc fod yng nghanol y broses, wedi'i rymuso i reoli ei iechyd lle bo hynny'n briodol, a chael ei gefnogi gan lwybrau clir, cydgysylltiedig.

Mae prosesau pontio yn arbennig o gymhleth i blant sydd â chyd-afiacheddau lluosog. Er bod enghreifftiau o arfer da, nid oes polisi pontio ffurfiol ar waith ar hyn o bryd. Mae gweithgor yn cael ei ddatblygu i fapio arferion cyfredol a diffinio sut olwg ddylai fod ar ddull pontio da rhwng gofal pediatrig ac oedolion.

## Ein Blaenoriaethau:

- Sefydlu polisïau a gweithdrefnau sy'n cefnogi trawsnewidiadau sy'n briodol yn ddatblygiadol.
- Cefnogi teuluoedd a gofalwyr, yn enwedig i bobl ifanc sydd â gwahaniaethau datblygiadol.
- Sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at ofal heb rwystrau, gyda llwybrau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd y bwrdd iechyd.

# 7. Adsefydlu

Ein nod yw grymuso babanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gymryd rhan mewn ymyriadau clinigol ystyrlon a chyrraedd eu potensial trwy ofal arloesol sy'n canolbwyntio arnyn nhw a'u teulu. Mae hyn yn cynnwys darparu asesiadau clinigol cynhwysfawr, cynlluniau therapi, a chymorth holistaidd gyda ffocws ar hygyrchedd a chydweithio amlddisgyblaethol.

## Byddwn yn gwneud y canlynol:

- Datblygu polisi "Dim Drws Anghywir" sy'n dod â therapi pediatrig a gwasanaethau adsefydlu at ei gilydd mewn lleoliadau cymunedol.
- Sicrhau bod llwybrau adsefydlu wedi'u cydgysylltu'n dda ar draws pob arbenigedd a sefydliad partner, gan ganolbwyntio ar fuddsoddiad cychwynnol i rymuso babanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Darparu gwasanaethau clinigol o ansawdd uchel, hygyrch a theg gyda'r nod o fodloni safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau, casglu Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMs) a Mesurau Profiad (PREMs).
- Darparu ymyriadau yn agos at gartref, gan gynnwys ysgolion, a mannau cymunedol eraill.
- Meithrin offer hunanreoli digidol ar gyfer teuluoedd a phlant, gan eu grymuso i reoli eu cyflyrau tymor hir a/neu adsefydlu.

## Blaenoriaethau Allweddol:

- **Mynediad a Thegwch:** Darparu gofal amserol a sicrhau mynediad teg i ymyriadau clinigol arbenigol, yn enwedig ar gyfer plant niwroamrywiol yn y gymuned.
- **Gwasanaethau yn y Gymuned:** Cynyddu'r defnydd o fannau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd a darparu cymorth cymdeithasol i deuluoedd, gan gynnwys gweithgareddau yn ystod cyfnodau nad ydynt yn y tymor.
- **Parhad Gofal:** Sicrhau cysondeb o ran staffio a lleihau rhwystredigaeth o drosiant uchel.
- **Gofal Holistaidd a Chynhwysol:** Integreiddio gwasanaethau iechyd meddwl gyda gofal corfforol a blaenoriaethu dull sy'n canolbwyntio ar deuluoedd.
- **Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Blant:** Gwella mynediad i fannau sy'n ystyriol o blant ac sy'n briodol i'w hoedran, gan gynnwys offer adsefydlu arbenigol ac anarbenigol.

# 8. Gofal Lliniarol

Mae gan dros 4000 o blant yng Nghymru gyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o farwolaethau ymhlith plant. Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn gallu cael gafael ar wasanaethau lleol ac arbenigol, gan sicrhau bod gofal diwedd oes yn gydweithredol ac wedi'i deilwra i bob plentyn. Bydd Rhwydwaith Gofal Lliniarol Pediatrig Cymru Gyfan (AWPPCN) yn dod â darparwyr iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector at ei gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghymru sydd â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd (LLC) fynediad 24/7 at ofal lliniarol arbenigol, ni waeth ble y cânt eu trin (cartref, hosbis neu ysbyty).

## Ein Blaenoriaethau:

- Datblygu tîm rhwydwaith arbenigol mewn ardaloedd sydd heb eu gwasanaethu'n ddigonol yng Nghymru.
- Gweithredu cymorth pontio sy'n briodol yn ddatblygiadol ac ehangu timau amlddisgyblaethol.
- Sefydlu systemau digidol cadarn ar gyfer cyfnewid data di-dor ac olrhain systemau pontio cleifion.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau o'r maint iawn i ateb y galw cynyddol am ofal lliniarol pediatrig.

Yn y tymor hwy wrth i nifer yr LLCs gynyddu, rhaid i wasanaethau barhau i ddatblygu i gefnogi cleifion a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol, integreiddio gwybodaeth ac arbenigedd i arbenigeddau allweddol, ac ehangu hyfforddiant i bobl nad ydynt yn arbenigwyr sy'n gofalu am blant sy'n marw. Mae sicrhau cyllid digonol, cyson yn hanfodol i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol.



# Cyflawni'r Cynllun – Ein Map Ffordd

## Blynyddoedd 1–3 (fel rhan o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig) erbyn 2027:

**Ymyrraeth Gynnar ac Atal:**

- Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau'r trydydd sector yn weithredol a datblygu rhaglenni mabwysiadu iechyd ac adsefydlu sy'n canolbwyntio ar hunanreolaeth deuluol ac atal yn gynnar.
- Canolbwyntio ar wasanaethau ataliol, gwella cymorth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl, ac ail-lunio'r gweithlu i gefnogi hyn.
- Bydd Rhaglen Plant Iach Cymru ar gyfer plant oed ysgol (HCWP2) yn cael ei gweithredu'n llawn ar draws pob lleoliad ysgol erbyn mis Hydref 2026. Bydd hyn yn gofyn am fodel gweithlu newydd gyda nyrsys iechyd y cyhoedd a nyrsys plant yn cydweithio i gefnogi hyn. Unwaith y bydd HCWP2 yn cael ei gweithredu, bydd gan bob plentyn ysgol fynediad at gydlynydd gofal (iechyd) yn yr ysgol.

**Datblygu gwasanaethau cymunedol ac ysbyty:**

- Mwy o wasanaethau cymunedol gan gynnwys clinigau pediatrig integredig ar draws clystyrau meddygon teulu
- Datblygu canolfan seibiant bwrpasol i ddarparu canolfan ragoriaeth i fabanod, plant a phobl ifanc ag anghenion iechyd cymhleth. Galluogi'r broses o ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr gan ein Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol Plant Integredig.
- Sefydlu un pwynt mynediad ar gyfer gofal brys pediatrig sy'n canolbwyntio ar ddatblygu llwybrau cyfan a gweithio i wneud y gorau o'r Ganolfan Trawma Mawr yn unol â safonau
- Datblygu gwasanaethau anadlol arbenigol, Uned Dibyniaeth Uchel Pediatrig (HDU), a gwasanaethau offthalmoleg pediatrig.
- Ffocws ar berfformiad theatrau ac effeithlonrwydd ac ehangu cwmpas yr Uned Dragonfly.

**Y Gweithlu:**

- Ail-adolygu sgiliau presennol y gweithlu yn erbyn gofynion presennol ac yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gweithlu aml-genhedlaeth yn barod ar gyfer rolau a thechnoleg sy'n datblygu
- Datblygu ac ymgorffori rolau newydd, gan ganolbwyntio ar y gweithlu MDT.
- Datblygu cynlluniau i recriwtio a chadw'r staff gorau gyda ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant, tra'n hyrwyddo'r Gymraeg.
- Gweithredu ystod o fodelau gweithio hybrid i wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, cefnogi gweithlu amlgenhedlaeth a denu cronfa dalent ehangach.
- Cefnogi staff i fyw bywydau iach drwy amgylcheddau cefnogol, cyfleoedd datblygu a chynlluniau cydnabyddiaeth.

**Polisi, strwythur sefydliadol ac arweinyddiaeth:**

- Datblygu a sefydlu polisïau gofal pontio effeithiol.
- Sicrhau ein bod yn datblygu ein harweinwyr clinigol i gydweithio ar draws sefydliadau (rhwng darparwyr gofal iechyd a gyda gofal cymdeithasol) i sicrhau gofal integredig.
- Sicrhau bod ein strwythurau rheoli a llywodraethu yn rhoi gwell cyfle ar gyfer cynllunio a darparu llwybrau cyfan.
- Gweithio ochr yn ochr ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi gofal iechyd cenedlaethol.

## Blynyddoedd 3-5 erbyn 2030:

- **Atebion Iechyd Digidol ar gyfer gofal teg a gwell mynediad:** Canolbwyntio ar integreiddio atebion iechyd digidol i leihau amseroedd aros a sicrhau gwell mynediad at ofal gan gynnwys gofal arbenigol lle gallai fod mwy o bellteroedd i gleifion a theuluoedd deithio
- **Sicrhau cydbwysedd rhwng gwasanaethau llawfeddygol sydd wedi'u cynllunio a rhai brys** Sefydlu Uned Gofal Ôl-Anesthesia Pediatrig (PACU) bwrpasol i gefnogi'r adferiad gorau posibl ar ôl llawdriniaeth, gan atal cystadleuaeth ar gyfer gwelyau Gofal Dwys rhwng derbyniadau brys a chleifion llawdriniaeth ddewisol.
- **Gwasanaethau arbenigol:** Cryfhau cydweithio gyda'r Cydbwyllgor Comisiynu a darparwyr eraill y Bwrdd Iechyd
- **Iechyd Meddwl** Ehangu treialon clinigol iechyd meddwl, creu systemau gweithwyr allweddol. Sicrhau cydymffurfiad parhaus â thargedau iechyd meddwl.
- **Pontio:** Darparu gofal pontio gyda hyfforddiant darparwyr gwasanaeth oedolion. Datblygu strategaethau pontio ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed, a sicrhau achosion busnes ar gyfer ehangu gwasanaethau ymhellach.
- **Amseroedd aros:** Lleihau amseroedd aros cleifion allanol i 26 wythnos, amseroedd aros triniaeth i 36 wythnos, ac arosiadau diagnostig i 8 wythnos ac 14 wythnos ar gyfer amser atgyfeirio at driniaeth yr adran therapïau. Cyflwyno triniaeth cerdded i mewn ac allan yr un diwrnod i blant.
- **Adsefydlu Cymunedol:** Parhau i weithredu rhaglenni adsefydlu yn y gymuned mewn cydweithrediad â phartneriaid trydydd sector.
- **Y Gweithlu:** Rhagweld gofynion newydd i'r gweithlu wedi'u llywio gan dechnoleg a data. Parhau i ymgorffori modelau gweithlu newydd sy'n cyd-fynd â nodau strategol. Canolbwyntio ar arweinyddiaeth a datblygiad i feithrin talent ac arweinwyr y dyfodol. Gosod targedau mesuradwy ac olrhain cynnydd tuag at sicrhau diwylliant cynhwysol.

## Blynyddoedd 5-10 erbyn 2035:

- **Darparu'r 6 maes ansawdd:** Darparu gofal iechyd yn gyson i'n babanod, plant a phobl ifanc yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) Cymru 2020. Y meysydd hyn yw; Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg ac yn Canolbwyntio ar y Claf.
- **Arloesi Gofal Iechyd:** Datblygu AI a meddygaeth genomig, gan gefnogi gwaith i leihau anghydraddoldebau iechyd a sicrhau bod BIP Caerdydd a'r Fro yn arweinydd mewn gofal iechyd pediatrig, ymchwil ac arloesi.
- **Rhagoriaeth Pontio:** Sefydlu BIP Caerdydd a'r Fro fel enghraifft o ofal pontio, gan gefnogi oedolion ifanc i lywio iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.
- **Seilwaith Adsefydlu Acíwt:** Creu ardal adsefydlu bwrpasol yn Ysbyty Plant Cymru, gan sicrhau bod yr holl anghenion adsefydlu arbenigol yn cael eu diwallu yn y rhanbarth.
- **Y Gweithlu:** Adeiladu gweithlu gwydn, medrus a chynaliadwy sy'n addasu i newidiadau, yn gynaliadwy ac yn cyd-fynd ag amcanion strategol tymor hwy.



# Ein Mesurau

## Er mwyn sicrhau bod y Cynllun hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol, byddwn yn mesur ein cynnydd drwy'r ffyrdd canlynol:

- **Gwella Iechyd y Boblogaeth a Dulliau Atal:**
    - Cynyddu cyfraddau imiwneiddio plant, cyfraddau bwydo ar y fron, a lleihau gordewdra a cheudodau yn y dannedd ymhlith plant ysgol. Cynyddu cyfraddau rhoi'r gorau i ysmygu a fepio ymhlith plant.
- **Gofal yn agos i'r cartref:**
    - Darparu mwy o wasanaethau mewn lleoliadau cymunedol, gan gynnwys gofal yn y cartref a wardiau rhithwir
    - Cynnydd mewn gwasanaethau ataliol yn y gymuned.
    - Datblygu gwasanaethau adsefydlu yn y gymuned gyda dulliau tîm amlddisgyblaethol (MDT)
- **Canlyniadau a phrofiadau o safon**
    - Gwella'r broses o gasglu Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiad (PREMS) i asesu perfformiad y gwasanaeth a llywio gwelliannau.
    - Ymgymryd â gwaith meincnodi gyda chymheiriaid ar gyfer ein holl wasanaethau a mesur perfformiad mewn ffordd systematig.
    - Sicrhau ein bod yn monitro yn erbyn safonau, manylebau a datganiadau ansawdd cenedlaethol lle mae ar gael
    - Monitro perfformiad yn erbyn mesurau ansawdd y cytunwyd arnynt trwy System Rheoli Ansawdd sefydledig
- **Amseroedd Aros a Mynediad:**
    - Lleihau amseroedd aros hir ar gyfer gwasanaethau cleifion allanol a chleifion mewnol
    - Gwella mynediad at ofal (arbenigwyr ac offer) mewn lleoliadau cymunedol ac yn rhithwir.
    - Sicrhau mynediad teg i ofal ar draws lleoliadau daearyddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd heb fynediad digonol at ofal meddygol
    - Sicrhau tegwch mynediad at ofal arbenigol ar draws gwahanol ranbarthau.
- **Cynyddu gweithgareddau ymchwil**
    - Tystiolaeth o gynyddu cydnabyddiaeth ein staff a'n gwasanaethau arbenigol, gyda gwell mynediad at dreialon clinigol a datblygu cynllun ymchwil clir gyda phartneriaid.
- **Sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cymryd rhan**
    - Bydd tystiolaeth o gyfranogiad ac ymgysylltiad rheolaidd â phlant, teuluoedd a darparwyr gofal iechyd yn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn ymatebol i anghenion sy'n esblygu.



# Cyflawni ein cynllun

Bydd sawl cynllun hirdymor a fydd yn sicrhau y gallwn gyflawni ein map ffordd hyd at 2035. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd fel; seilwaith (ystad a digidol), gweithlu, cyllid, iechyd y boblogaeth. Yn fwy penodol, y meysydd yr ydym yn eu hystyried yn hanfodol i gyflawni ein cynlluniau ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc yn effeithiol yw:

## Pobl a Diwylliant

Datblygwyd Cynllun Pobl a Diwylliant y BIP (2022-25) (Y Cynllun) o fewn y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r saith thema allweddol a amlinellir yn Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cynllun hwn yn allweddol i'n helpu i gyflawni un o'n hamcanion i'r dyfodol sef 'Rhoi Ein Pobl yn Gyntaf,' oherwydd rydym yn dibynnu'n llwyr ar ein gweithlu os ydym am ddiwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth yn effeithiol heddiw ac yn y dyfodol. Yng ngoleuni heriau sylweddol y gweithlu sy'n wynebu ein gwasanaethau (fel y'u crynhoir ar dudalen X) ac er mwyn sicrhau cyflawniadau'r gweithlu fel y nodwyd yn 'Ein Map Ffordd' (cyfeirir atynt ar dudalen X), dylai ffocws ar y tri amcan blaenoriaeth canlynol, fel y manylir yn y Cynllun, ein galluogi i adeiladu gweithlu gwydn, medrus a chynaliadwy y gellir ei addasu i ddiwallu anghenion iechyd ac anghenion gweithlu sy'n newid:

- **Amcan 1:** Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn datblygu, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu cynnwys
- **Amcan 2:** Denu a recriwtio pobl sydd â'r sgiliau, y galluoedd, y gwerthoedd a'r profiadau iawn i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth
- **Amcan 3:** Sicrhau bod ein gwasanaethau'n cael eu darparu gan y tîm iawn: gweithlu sy'n fforddiadwy, yn gynaliadwy ac wedi'i integreiddio i ddiwallu anghenion gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol ac sy'n adlewyrchu ein poblogaeth

## Iechyd Digidol a Thechnoleg

Mae trawsnewid digidol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflawni ein cynllun yn llwyddiannus a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y canlynol yn cael eu datblygu fel rhan o gynlluniau digidol ein Bwrdd Iechyd:

- **Systemau data a gwybodaeth:** Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau am ein gwasanaethau ar sail gwybodaeth dda a bydd yn bwysig os ydym am fesur a ydym yn gwneud gwelliannau a chynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau.
- **Ehangu Telefeddygaeth:** Er mwyn cefnogi plant mewn ardaloedd anghysbell a lleihau ymweliadau ysbyty, bydd platfformau telefeddygaeth yn cael eu gwella. Defnyddio ymgynghoriadau rhithwir a thechnoleg i fonitro'r galw a gwella llif cleifion.
- **AI:** Manteisio ar ddeallusrwydd artiffisial (AI) ar gyfer gwell diagnosteg, personoli triniaeth, gwella effeithlonrwydd gweithredol, a hyrwyddo ymchwil.



# Partneriaethau Cydweithredol a Chydgynhyrchu

Elfen sylfaenol wrth gyflawni ein cynllun yw'r bartneriaeth agos ag awdurdodau lleol a'r trydydd sector a sefydliadau elusennol drwy ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'n Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn gweithio i ddatblygu ein partneriaethau a chynllunio gwasanaethau gyda Byrddau Iechyd eraill, Ymddiriedolaethau, comisiynwyr arbenigol a darparwyr addysg gan gynnwys Prifysgol Caerdydd.

Mae'r cydweithrediad hwn yn sicrhau:

- **Llwybrau Gofal Integredig a chydweithio:** Cydlynu gofal yn ddi-dor ar draws gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysgol yn ogystal ag i gleifion a theuluoedd sy'n teithio o bob cwr o Gymru i dderbyn gofal. Bydd cydweithio â phartneriaid iechyd a rhai nad ydynt yn ymwneud ag iechyd, gan gynnwys addysg, yn hanfodol wrth gyflawni ein blaenoriaethau.
- **Cymorth ar gyfer Achosion Cymhleth:** Ymdrechion ar y cyd i reoli plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys y rhai sy'n trosglwyddo o bediatreg i wasanaethau oedolion.
- **Cefnogi plant agored i niwed:** Mae partneriaethau gyda sefydliadau sy'n canolbwyntio ar iechyd meddwl, anabledd ac amddiffyn plant yn helpu i ddarparu gofal mwy holistaidd.
- **Cydweithio rhwng ymchwil ac addysg:** Mae cydweithio parhaus gyda'n partneriaid gan gynnwys Prifysgol Caerdydd drwy ein Partneriaeth Academaidd ar y Cyd yn ysgogi arloesedd mewn gofal pediatrig.
- **Cynnwys plant, pobl ifanc a'u teuluoedd:** Ar bob cam i sicrhau bod ein cynlluniau ar gyfer gwasanaethau yn cael eu cydgynhyrchu.

# Sut fydd yn teimlo?

**Bydd cydweithwyr yn teimlo:**

- Yn rhan o dîm gwerthfawr, gan rannu gwybodaeth ac arbenigedd gyda thîm ehangach o bobl.
- Wedi'u grymuso i ddarparu'r gofal gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.
- Wedi'u hannog i arloesi a datblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion esblygol cleifion a'u teuluoedd.
- Wedi'u cefnogi ac yn barod i ddarparu gofal o ansawdd uchel gyda mynediad at adnoddau a hyfforddiant angenrheidiol.

**Bydd babanod, plant a phobl ifanc yn teimlo:**

- Wedi'u grymuso i gadw eu hunain yn iach gan wybod sut i atal afiechyd
- Yn rhan o benderfyniadau a wneir ynghylch eu gofal, gyda gwell gwybodaeth, a gwell cyfathrebu gan bobl sy'n darparu gwasanaethau.
- Yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn yr amgylchedd lle maent yn profi gofal, yn enwedig wrth iddynt bontio rhwng gwasanaethau plant ac oedolion.
- Yn barod ar gyfer triniaethau y gallent eu derbyn yn enwedig mewn amgylcheddau anghyfarwydd.

**Bydd teuluoedd yn teimlo:**

- Wedi'u grymuso i wella iechyd eu hanwyliaid ac yn gwybod sut i atal afiechyd.
- Bod ganddynt lais yn y gofal y mae eu hanwyliaid yn ei dderbyn a'r wybodaeth gywir i wneud penderfyniadau â hi.
- Eu bod yn derbyn gwell cyfathrebu a gwell gwybodaeth am wasanaethau gofal iechyd ac opsiynau ar gyfer triniaeth sydd ar gael.

# Rhestr termau

## (AI) Deallusrwydd Artiffisial

Mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cyfeirio at ddatblygu systemau cyfrifiadurol sy'n gallu cyflawni tasgau sydd fel arfer yn gofyn am ddeallusrwydd dynol. Gall AI o fewn gofal iechyd helpu i ddehongli profion, cyflymu'r broses o wneud penderfyniadau, a chreu cynlluniau triniaeth wedi'u personoli. Mae yna lawer o bethau y gall AI eu gwneud, a disgwylir y bydd posibiliadau'n ehangu wrth i dechnoleg ddatblygu.

## (CHfW) Ysbyty Plant Cymru

Mae Ysbyty Plant Cymru wedi ei leoli ar safle mwy Ysbyty Athrofaol Cymru a dyma'r unig ysbyty plant yng Nghymru.

## (CLA) Plant sy'n Derbyn Gofal

Gelwir plentyn sydd wedi bod yng ngofal ei awdurdod lleol am fwy na 24 awr yn blentyn sy'n derbyn gofal. Cyfeirir at blant sy'n derbyn gofal yn aml hefyd fel plant mewn gofal.

## CYPF

Mae CYPF yn acronym a ddefnyddir i gyfeirio at Blant, Pobl Ifanc a Theuluoedd.

## Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

Mae'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith gan Lywodraeth Cymru sy'n cryfhau'r Ddyletswydd Ansawdd ar gyrff y GIG, yn gofyn am fod yn agored ac yn onest â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu niweidio yn ystod gofal, ac yn sicrhau bod lleisiau'n cael eu clywed drwy gorff iechyd a gofal cymdeithasol i ddinasyddion Cymru gyfan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill weithio a chydweithio i wella llesiant Cymru.

## Deddf Plant 2004

Mae Deddf Plant 2004 yn gyfraith sy'n sicrhau bod gan bawb (unigolion a sefydliadau) sy'n gweithio gyda phlant gyfrifoldeb am ddiogelu plant a hyrwyddo eu lles.

## Genomeg

Genomeg yw'r astudiaeth o enynnau a'u swyddogaethau. Mewn gofal iechyd, gellir defnyddio hwn i ragweld salwch yn y dyfodol, adweithiau i feddyginiaeth a llawer mwy.

## (HCWP2) Rhaglen Plant Iach Cymru

Mae Rhaglen Plant Iach Cymru (HCWP2) Llywodraeth Cymru yn nodi'r cysylltiadau arfaethedig y gall plant a'u teuluoedd eu disgwyl gan eu byrddau iechyd lleol. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf o addysg (0-7 oed).

## (HDU) Uned Dibyniaeth Fawr

Mae uned dibyniaeth fawr (HDU) yn ardal arbenigol o fewn ysbyty sy'n cynnig lefel uwch o ofal na ward safonol.

## (ICU) Uned Gofal Dwys

Mae unedau gofal dwys (ICUs) yn wardiau ysbyty arbenigol sy'n darparu triniaeth a monitro i bobl sy'n sâl iawn. Efallai y bydd angen monitro rhywun mewn ICU yn agos gyda pheiriannau arbenigol.

## Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc 2015

Sefydlwyd y Rhaglen Law yn Llaw dros Blant a Phobl Ifanc gan Lywodraeth Cymru yn 2015 i ystyried ffyrdd o ail-lunio, ailfodelu ac ail-gyfeirio'r gwasanaethau lles emosiynol ac iechyd meddwl a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Daeth y Rhaglen i ben ar 31 Mawrth 2022 fel y cynlluniwyd, ar ôl cyflawni ei nodau.

## (LLC) Cyflyrau sy'n Cyfyngu ar Fywyd

Mae cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd (LLC) yn glefydau na ellir eu gwella ac sy'n debygol o achosi marwolaeth o fewn cyfnod cyfyngedig o amser.

## Llunio ein Llesiant i'r Dyfodol

Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol yw strategaeth deng mlynedd y Bwrdd Iechyd sy'n darparu cyfeiriad ac eglurder ar yr hyn y mae'r sefydliad yn anelu i'w gyflawni erbyn 2035.

## (MDT) Tîm Amlddisgyblaethol

Mae tîm amlddisgyblaethol yn grŵp o weithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n aelodau o broffesiynau/a sefydliadau gwahanol (e.e. meddygon teulu, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, ffisiotherapyddion, meddygon, therapyddion galwedigaethol), sy'n gweithio gyda'i gilydd i wneud penderfyniadau ynghylch trin cleifion unigol.

## NYTH / NEST

Mae'r fframwaith NYTH / NEST yn ddull system gyfan a ddyluniwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y trydydd sector. Mae'n helpu i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl, lles a chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a'u gofalwyr.

## Partneriaid

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda llawer o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau. Pan fyddwn yn defnyddio'r term partneriaid, efallai ein bod yn cyfeirio at: Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd eraill, darparwyr addysg gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Llais, aelodau o'n Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan gynnwys Cyngor Caerdydd a Chyngor y Fro

## Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr.

(PREMs) Mesurau Profiad a Adroddir gan Gleifion Mae mesurau profiad a adroddir gan gleifion (PREMs) yn ffordd i gleifion ddweud wrthym am eu profiad wrth dderbyn gofal. Maen nhw'n ein helpu ni i fesur ansawdd y gofal rydyn ni'n ei ddarparu.

## (PROMs) Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion

Mae mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion (PROMs) yn ffordd i gleifion ddweud wrthym am eu hiechyd, lles ac ansawdd bywyd. Maent yn ein helpu i fonitro cynnydd ac adferiad.

## Sophie's Legacy

Mae Sophie's Legacy yn cynrychioli dymuniadau Sophie Fairall, a fu farw o ganser yn 10 oed. Roedd ei dymuniadau ar ôl iddi farw fel a ganlyn:

1. Arbenigwr chwarae mewn ysbytai 7 diwrnod yr wythnos
2. Gwella'r bwyd i blant yn yr ysbyty
3. Bod rhieni yn cael eu bwydo pan fyddant yn aros gyda'u plentyn
4. Bod meddygon teulu, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol yn cael eu hyfforddi mewn canser plentyndod
5. Cynyddu'r arian (3% ar hyn o bryd) mewn ymchwil canser plentyndod

## (UNCRC) Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb pwysig sy'n gyfreithiol rwymol a lofnodwyd gan 196 o wledydd (ar 12 Gorffennaf 2022) sy'n amlinellu hawliau sylfaenol pob plentyn, waeth beth yw eu hil, crefydd neu allu.

## Y Ffordd Iawn

Mae'r Ffordd Iawn yn Ddull Hawliau Plant a grëwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru sy'n effeithio ar wneud penderfyniadau, polisi ac ymarfer.